TGAU

3020U20-1B

S24-3020U20-1B

**DYDD LLUN, 22 EBRILL 2024 – PRYNHAWN**
***MONDAY, 22 APRIL 2024 – AFTERNOON***

# CYMRAEG AIL IAITH – Uned 2
# *WELSH SECOND LANGUAGE – Unit 2*

## PRAWF B (Diwrnod 1)
## *TEST B (Day 1)*

## CYFATHREBU AG ERAILL
## *COMMUNICATING WITH OTHER PEOPLE*

### COPI'R YMGEISYDD
### *CANDIDATE'S COPY*

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dewiswch **un** dasg.

Cewch hyd at 10 munud i baratoi'r dasg hon.

Gallwch wneud nodiadau a thrafod gyda'ch partner/grŵp yn ystod y cyfnod hwn.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron neu unrhyw adnodd arall wrth baratoi.**

Cyn gadael yr ystafell arholi rhaid i chi roi'r daflen hon ac unrhyw nodiadau a wnaethoch yn ystod y 10 munud i'r athro/athrawes sy'n cynnal y prawf.

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*Choose* ***one*** *task.*

*You have up to 10 minutes' preparation time.*

*You may make notes and discuss with your partner/group during this time.*

***The use of dictionaries or any other resource is forbidden during preparation.***

*Before leaving the examination room this sheet and any notes you made during the 10 minutes must be given to the teacher conducting the test.*

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Naill ai

## TASG 1

# YSGOL. AMSER I'W FWYNHAU?

## Wyt ti'n hoffi'r ysgol?

| Pwyntiau da | Pwyntiau drwg |
|---|---|
| • bod gyda ffrindiau<br>• dysgu pethau newydd<br>• gwneud chwaraeon<br>• clybiau am ddim<br>• paratoi ar gyfer y dyfodol | • codi'n gynnar<br>• athrawon llym/blin<br>• gwisg ysgol<br>• gormod o reolau<br>• bwyd y cantîn |





Doeddwn i ddim yn hoffi'r ysgol; wnes i ddim gweithio'n galed. Un TGAU gradd C ges i a ches i ddim mynd i'r coleg. Hoffwn i gael yr amser yn ôl – baswn i'n gweithio'n galed iawn!
Megan





Rydw i wrth fy modd yn yr ysgol. Dw i'n cael bod gyda fy ffrindiau drwy'r dydd. Rydw i'n gweithio'n galed ond dw i'n cael hwyl hefyd! Rydw i yn y tîm criced a'r tîm gymnasteg a does dim rhaid talu!
Robert



Dw i ddim yn mwynhau'r ysgol – mae llawer gormod o bwysau!
Gwaith cartref.... arholiadau....
beth i wneud nesaf....
Frederik



CYTUNO?

| YSGOL GYNRADD | YSGOL UWCHRADD |
|---|---|
| ✓ | ✗ |

**Mae fy ysgol i yn fendigedig! Dw i'n dwlu ar y gwersi a'r athrawon.**
**Michelle**

Mae'r ysgol yn cynnig sesiynau 'Yoga a Meddwlgarwch' i helpu gyda phwysau gwaith. Rydw i a fy ffrindiau wedi bod sawl gwaith – mae'r sesiynau yn help mawr. Hoffwn i weld mwy o'r bechgyn yn cymryd rhan.
Samara

**Ar ôl TGAU – be' nesa?**
→ **gwaith**
→ **coleg**
→ **blwyddyn 12**

Neu

## TASG 2

# MAE’N BWYSIG GALLU SIARAD CYMRAEG YNG NGHYMRU

Cafodd fy mrawd TGAU yn Saesneg, Cymraeg a Sbaeneg. Mae e mor lwcus yn gallu siarad tair iaith!
Gwydion

Mae dysgu siarad Cymraeg MOR anodd!
Rhys

Siarad. Rhannwch eich Cymraeg

**LLYFRGELL Y DREF**
Sesiynau Siarad Cymraeg
Pob bore Sadwrn 10.00 – 11.00
Peidiwch â bod yn swil –
Dewch i sgwrsio!

Defnyddia
Dy Gymraeg

Yr unig le dw i’n gallu siarad Cymraeg ydy yn yr ysgol. Beth ydy’r pwynt?
Jason

Mae tad-cu wedi symud o Lundain i fyw yn agos i ni. Mae e’n mynd i ddosbarth nos pob wythnos i ddysgu siarad Cymraeg.
Rhian

Dw i’n trio fy ngorau i siarad Cymraeg ond mae pobl yn cywiro fy iaith drwy’r amser! Dw i bron â rhoi’r ffidil yn y to!
Mina

Ble rwyt ti’n siarad Cymraeg?

- yn yr ysgol
- yn siop y pentref
- gyda mam-gu
- ar y we
- clwb yr Urdd
- clwb ffermwyr ifanc

Dwi’n manteisio ar bob cyfle i siarad Cymraeg – yn y siopau, y llyfrgell, y ganolfan hamdden.... Dw i’n cael ymateb da iawn!
Beth

Roedd miloedd yn fwy o ddysgwyr yn dysgu Cymraeg ar-lein yn ystod y pandemig.

duolingo

miliwn
erbyn
2050

Fydd hyn yn helpu targed y Llywodraeth?

BYDD DYSGU CYMRAEG YN FY HELPU I GAEL GWAITH YNG NGHYMRU

DW I’N DYSGU CYMRAEG
hapus i siarad Cymraeg!

**Trowch y dudalen.**
***Turn over.***

Neu

## TASG 3

# CHWARAEON – FY HOFF BETH!

DISABILITY SPORT WALES CHWARAEON ANABLEDD CYMRU

Dylen ni wneud ymarfer corff bob dydd. Mae'n ein cadw'n iach ac mae hefyd yn dda i'r meddwl.
Joe

Dw i wrth fy modd gyda chwaraeon o bob math. Chwaraeon tîm neu unigol. Tennis yw fy hoff un; hoffwn i chwarae yn Wimbledon rhyw ddydd!
Josh





Dw i ddim yn dda mewn chwaraeon tîm felly mae'n gas gen i wersi chwaraeon. Gwell gen i feicio a rhedeg ond dydyn ni ddim yn gwneud y rhain yn yr ysgol.
Steve



Mae fy chwaer mewn cadair olwyn ond mae hi'n chwarae pêl fasged i dîm lleol ac wedi cystadlu gyda'r Urdd. Mae gan ein canolfan hamdden gyfleusterau gwych ar gyfer pobl anabl.
Maddie



Mae fy ffrind Alexander yn byw yn yr Almaen. Yn ei ysgol e maen nhw'n cael p'nawn cyfan o chwaraeon. Baswn i wrth fy modd cael hyn yn ein hysgol ni!
Anna

## CHWARAEON NEU DDIM?










**Ydych chi'n poeni am TGAU?**

**Ydych chi wedi blino?**

**Ydych chi o dan bwysau gwaith?**

**Dewch i ymarfer ZWMBA amser cinio.**

**½ awr bob Dydd Llun, Mercher a Gwener – 12.30–1.00**
**Y Gampfa**

**CORFF IACH, MEDDWL IACH.**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.